LLESIANT POBL IFANC

# DIGARTREFEDD IEUENCTID

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

MEDI 2019

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Ynglŷn a'r adroddiad hwn | 3 |
| Darlun o ddigartrefedd ieuenctid | 5 |
| Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni? | 7 |
| Pwy arall sy'n chwarae rhan? | 9 |
| Faint sy'n cael ei wario? | 10 |
| Cyfleoedd i wella | 13 |



Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
Mae croeso i chi ein ffonio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru



Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yr oedd tîm astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Rachel Harries, a Verity Winn o dan arweinyddiaeth Matthew Mortlock.

# YNGLŶN A'R ADRODDIAD HWN


## Ynglŷn â'n gwaith ar lesiant pobl ifanc

### Cydweithio

Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill i archwilio thema gyffredin, sef 'Ieuenctid'. Cyhoeddodd yr arolygiaeth addysg, Estyn, ei hadroddiad ar **wasanaethau cymorth ieuenctid** ym mis Gorffennaf 2018. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei **hadolygiad o wasanaethau gofal iechyd i bobl ifanc** ym mis Mawrth 2019. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru **ei hadroddiad ar blant a phobl ifanc** sydd wedi bod mewn gofal ym mis Mehefin 2019.

### Ein gwaith ni

Fe edrychom ni ar waith Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant pobl ifanc yng Nghymru. Mae llesiant yn gysyniad eang, felly rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar bum pwnc: digartrefedd ieuenctid; oedolion ifanc sy'n ofalwyr; rhieni ifanc; iechyd meddwl; a sgiliau a chyflogadwyedd. Rydym yn cyhoeddi saith cynnyrch yn seiliedig ar ein gwaith, gan gynnwys yr adroddiad hwn. Mae'r diagram isod yn darparu dolen i bob cynnyrch.



# Ynglŷn â'r adroddiad hwn am ddigartrefedd ieuenctid

Fe edrychom ni ar ddigartrefedd am ei fod yn cael effaith fawr ar lesiant corfforol, emosiynol a meddyliol person ifanc. Gall lesteirio rhagolygon bywyd a chyfleoedd pobl ifanc yn ddifrifol dros y tymor hwy. Hefyd, mae mynd i'r afael â digartrefedd yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r adroddiad hwn yn archwiliad cynhwysfawr o wasanaethau digartrefedd ieuenctid. Ein ffocws yw'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi sefydliadau sy'n helpu pobl ifanc sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref. Rydym yn rhoi ein harsylwadau yn seiliedig ar gyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Fe wnaethom hefyd adolygu strategaethau, cynlluniau, tystiolaeth ymchwil ac ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae'r diagram yn darparu trosolwg o'r adroddiad hwn a gallwch ei ddefnyddio i symud i'r gwahanol adrannau sy'n egluro'r hyn a ganfuom.

**Darlun o ddigartrefedd ieuenctid**

Mae digartrefedd ieuenctid yn tyfu ac mae rhai grwpiau'n arbennig o agored i risg.

**Faint sy'n cael ei wario**

Nid yw'n gwbl glir faint sy'n cael ei wario ar ddigartrefedd ac nid oes data penodol ar wariant ar bobl ifanc.

**Pwy sy'n chwarae rhan**

Mae gan lawer o wahanol sefydliadau rôl o ran helpu pobl ifanc ddigartref ac atal digartrefedd.

**Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni**

Y nod cyffredinol yw rhoi terfyn ar ddigartrefedd ieuenctid. Tanategir hyn gan nifer o gynlluniau a strategaethau.

**Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru**

Gallai seilio'i chynlluniau ar dystiolaeth well a bod yn gliriach ynglŷn â'i rôl ei hun o ran gwella a chydgysylltu'r cymorth i bobl ifanc.

# DARLUN O DDIGARTREFEDD IEUENCTID

**Ffeithiau allweddol am ddigartrefedd**. **Cliciwch yma i weld fersiwn ryngweithiol o'r data**.
Ceir rhagor o wybodaeth am ddigartrefedd yn ein **hofferyn data**[1]


| | |
|---|---|
| **Ymgeiswyr 16 i 24 oed a oedd yn ddigartref yn anfwriadol, yn gymwys i gael cymorth ac mewn angen blaenoriaethol** | Cynyddodd y niferoedd o 570 o bobl yn 2015-16 i 684 yn 2017-18.<br><br>Yn ystod 2017-18, mewn 531 o achosion (78%) derbyniodd yr ymgeisydd gynnig o lety sefydlog, addas. |
| **Ymgeiswyr 16 i 24 oed a oedd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth** | Cynyddodd y niferoedd o 2,031 o bobl yn 2015-16 i 3,153 yn 2017-18<br><br>Yn ystod 2017-18, mewn 1,332 o achosion (42%) llwyddodd cynghorau i helpu'r ymgeisydd i ddod o hyd i lety. Mewn 1,173 o achosion (37%) methodd y cyngor â helpu'r ymgeisydd i ddod o hyd i rywle i fyw. **Mae ein hofferyn data'n rhoi rhagor o wybodaeth**. |
| **Ymgeiswyr 16 i 24 oed a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd ac yn gymwys i gael cymorth** | Cynyddodd y niferoedd o 1,968 o bobl yn 2015-16 i 2,088 yn 2017-18.<br><br>Yn ystod 2017-18, mewn 1,334 o achosion (64%) llwyddodd cynghorau i atal yr ymgeisydd rhag dod yn ddigartref. |

Ffynhonnell: Casgliad Data Digartrefedd, Llywodraeth Cymru.

TROEDNODION

1 Efallai y bydd data yn yr adroddiad hwn ychydig yn wahanol i'n hofferyn data ni sy'n cynnwys diweddariadau data byw.


**Roedd pobl ifanc 16 i 24 oed mewn llety dros dro a gymerodd ran mewn ymchwil** ar gyfer yr elusen digartrefedd Llamau a Phrifysgol Caerdydd[2] yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o brofi'r canlynol:




Gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau. Roedd y rhan fwyaf wedi cael eu gwahardd o'r ysgol ar ryw bwynt, nid oedd mwy na hanner yn hapus yn yr ysgol ac roedd un ym mhob pump yn cael eu bwlio.



Wedi'u derbyn i ward seiciatrig yn y chwe mis diwethaf neu fod ag anhwylder seiciatrig. Ychydig iawn o'r bobl ifanc ag anhwylder seiciatrig oedd yn cael yr help yr oedd ei angen arnynt.




Wedi bod at y meddyg teulu'n ddiweddar.



Roedd 28 o'r menywod ifanc wedi bod yn feichiog o leiaf unwaith. Roedd dwy ran o dair o'r menywod wedi colli baban, ac ni pharhaodd un ym mhob deg â'r beichiogrwydd. Ychydig o dan un ym mhob chwech o'r menywod a gadwodd y baban.



Roedd dros hanner y bobl ifanc wedi profi cam-drin o ryw fath.



Wedi defnyddio cyffuriau na roddwyd ar bresgripsiwn yn ystod eu hoes.

Adroddodd **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** fod pobl ifanc sy'n gadael gofal, sydd ag anabledd, sy'n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n drawsryweddol, yn fwy tebygol o ddod yn ddigartref.


TROEDNODION


2 Cymerodd 121 o bobl ifanc ran yn yr ymchwil.

# BETH MAE LLYWODRAETH CYMRU YN CEISIO'I GYFLAWNI?

Dywedodd Llywodraeth Cymru beth fyddai'n ei wneud i atal digartrefedd yn ei **Chynllun Digartrefedd Deng Mlynedd 2009-2019**. Roedd y Cynllun yn dweud bod lleihau digartrefedd ieuenctid a chefnogi pobl sy'n gadael gofal yn flaenoriaeth.


Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Ddeddf Tai (Cymru) 2014** a osododd ddyletswyddau ychwanegol ar gynghorau i fynd i'r afael ag anghenion tai. Mae'r dyletswyddau newydd ar gynghorau'n cynnwys dyletswydd i helpu unrhyw un sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn y 56 diwrnod[3] nesaf ac i helpu unrhyw berson digartref i ddod o hyd i gartref. Rhaid i gynghorau hefyd ysgrifennu strategaethau digartrefedd lleol a'u hadolygu bob pedair blynedd.





TROEDNODION

3 Gan ddechrau ar y diwrnod y caiff y person ei hysbysu ei fod yn gymwys i gael cymorth.




Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda phobl ifanc a sefydliadau sy'n helpu pobl ifanc i ysgrifennu **Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion yn 2016**. Mae'r Llwybr yn rhoi cyngor i sefydliadau sy'n gweithio i atal digartrefedd ieuenctid a hybu annibyniaeth. Gall sefydliadau ddewis dilyn y cyngor neu beidio.

Mae **strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru (2017)** yn addo lleihau digartrefedd i bobl o bob oed ond nid yw'n gwneud ymrwymiad penodol mewn perthynas â digartrefedd ieuenctid.

Mae **Canllawiau Ymestyn Hawliau 2002 Llywodraeth Cymru** yn nodi pa gymorth y mae gan yr holl bobl ifanc hawl iddo dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. **Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'i chanllawiau** yn 2018 ond nid yw wedi penderfynu a ddylid eu diweddaru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu dogfennau eraill sy'n berthnasol i atal digartrefedd ieuenctid:


**Standards for Improving the Health and Well-being of Homeless People and Specific Vulnerable Groups**

**Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel**

**Pan Fydda i'n Barod – Canllaw Arfer Da**

**Cynllun Gweithredu Cysgu Allan**


**Tai yn Gyntaf – Egwyddorion a Chanllawiau Cenedlaethol i Gymru**











Nid yw Llywodraeth Cymru yn gosod targedau ar gyfer cynghorau ar hyn o bryd i atal neu leddfu digartrefedd neu ddigartrefedd ieuenctid. Mae cynghorau'n cofnodi gwybodaeth am nifer y bobl y maent wedi eu helpu i ddod o hyd i rywle i fyw. **Rydym wedi cynnwys yr wybodaeth y mae cynghorau'n ei chofnodi yn ein hofferyn data**.

# PWY ARALL SY'N CHWARAE RHAN?

## Pwy arall sy'n rhan o gefnogi pobl ifanc sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref?



Mae dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau i helpu pobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref.



Mae Cymdeithasau Tai a sectorau'r trydydd sector yn helpu pobl ifanc sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddod yn ddigartref hefyd.



Dylai byrddau iechyd weithio gyda chynghorau a sefydliadau eraill i wella deilliannau iechyd ar gyfer pobl ddigartref ac atal digartrefedd gan ddefnyddio **Safonau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru**.



Gall sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus gan gynnwys ysgolion a'r heddlu helpu i adnabod pobl ifanc sy'n ddigartref neu'n dod yn ddigartref a'u rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau a all helpu.



Dechreuodd cynghrair **End Youth Homelessness Cymru** yn 2017. Mae'r cynghrair yn cynnwys academyddion, aelodau etholedig o'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, busnesau a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

# FAINT SY'N CAEL EI WARIO?

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i gynghorau a sefydliadau eraill i atal digartrefedd trwy ei Grant Atal Digartrefedd. Rhoddodd arian i gynghorau trwy'r **Rhaglen Cefnogi Pobl**[4] hefyd, er mai ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn fwy cyffredinol, nid dim ond digartrefedd, yr oedd yr arian hwn. Gall cynghorau ddarparu gwasanaethau Cefnogi Pobl eu hunain neu drwy sefydliadau eraill. O 2019-20, bydd arian ar gyfer y rhaglen yn cael ei gyfuno ag arian ar gyfer atal digartrefedd mewn Grant Cymorth Tai newydd i gynghorau.

Mae'r tabl isod yn dangos faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wario ar y Grant Atal Digartrefedd a'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r tabl hefyd yn dangos arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a wariwyd ar ddigartrefedd, gan gynnwys i helpu cynghorau i gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod yn union faint o arian sy'n cael ei wario ar ddigartrefedd ieuenctid gan bod y rhan fwyaf o'i gwariant ar ddigartrefedd wedi bod ar helpu pobl o bob oed.

TROEDNODION

4 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymwneud nid dim ond ag atal digartrefedd. Nod y Rhaglen yw helpu pobl agored i niwed i aros yn eu cartrefi. Mae ein hadroddiad blaenorol ar **Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y Rhaglen.

## Dyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i ddigartrefedd (ar gyfer pob oed)

| | Dyraniadau Grant Atal Digartrefedd | Dyraniadau arian ychwanegol | | Gwariant Gwirioneddol[5] | Dyraniadau'r Rhaglen Cefnogi Pobl | Gwariant Gwirioneddol | Cyfanswm Gwariant Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Arian Ychwanegol yn Ystod y Flwyddyn i Ymdrin â Chysgu ar y Stryd | Cyllid Pontio'r Ddeddf Tai | | | | |
| 2014-15 | £6.4m | – | – | £6.5m | £134.4m | £134.3m | £140.8m |
| 2015-16 | £6.4m | – | £6m | £11.8m | £124.4m | £124m | £135.8m |
| 2016-17 | £5.9m | – | £3m | £10.6m | £124.5m | £125.1m | £135.7m |
| 2017-18 | £5.9m | £2.6m | £2.8m | £8.8m | £123.6m | £123.6m | £132.4m |
| 2018-19 | £9.9m[6] | – | £6m[7] | £14.7m | £124.4m | £124.4m | £139.1m |

Ffynhonnell: Ffigyrau Llywodraeth Cymru (wedi'u talgrynnu i'r pwynt degol agosaf)

### TROEDNODION

5 Daeth arian ychwanegol yn 2014-15 a 2016-17 o danwariant mewn meysydd eraill.


6 Gan gynnwys £1.05 miliwn o gynllun peilot Hyblygrwydd Cyllid Llywodraeth Cymru. Daeth y cynllun peilot â chyllid ynghyd o nifer o grantiau i roi hyblygrwydd i gynghorau o ran sut i wario'r arian. O 2019-20, bydd cyllid atal digartrefedd yn rhan o Grant Cymorth Tai newydd. Mae'r grant newydd yn cynnwys atal digartrefedd, Cefnogi Pobl a Rhentu Doeth Cymru.

7 Yn 2018-19, daeth Cyllid Pontio'r Ddeddf Tai yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw i gynghorau. Mae cynghorau'n defnyddio'r Grant i dalu am lawer o wahanol wasanaethau a gallant wario mwy neu lai na'r dyraniad o £6 miliwn ar roi'r Ddeddf Tai ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwario £10 miliwn yn ychwanegol yn 2019-20 ar ddigartrefedd ieuenctid. Bydd cynlluniau'n cynnwys:

- hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc;
- cydlynwyr digartrefedd ieuenctid yn ardal pob awdurdod lleol;
- cymorth tai newydd trwy gronfa arloesi; a
- mynediad gwell at wybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

Mae'r siart gyferbyn yn dangos sut y bydd yr arian yn cael ei wario.




Ffynhonnell: Ffigyrau Llywodraeth Cymru

Dangosodd ein hadroddiad ar **Sut Mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd**, 2017 fod swm yr arian yr oedd cynghorau'n dewis ei wario ar ddigartrefedd wedi gostwng rhwng 2009-10 a 2015-16.

Mae **ein hofferyn data** yn dangos cyllidebau digartrefedd ar gyfer ardal pob cyngor. Yn 2017-18, roedd cyfanswm cyllidebau digartrefedd cynghorau ledled Cymru yn £15.7 miliwn (£5 y pen o'r boblogaeth). Cododd cyllidebau i £20.4 miliwn (£7 y pen) yn 2018-19. Nid oes gwybodaeth gennym am gyllidebau cyn 2017. Gall gwariant cynghorau amrywio'n sylweddol o'r arian a nodir ganddynt yn eu cyllidebau.

# CYFLEOEDD I WELLA

## Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru

### Deall graddfa digartrefedd ieuenctid a'r bobl yr effeithir arnynt

Mae'n anodd cael gwybodaeth gywir am bobl sy'n profi 'digartrefedd cudd' sy'n aros gyda ffrindiau neu'n cysgu ar y stryd ac yn peidio â gofyn i gynghorau am help. Hefyd, dim ond nifer y bobl sy'n gofyn iddynt am help a'r hyn sy'n digwydd iddynt hwy y mae'r wybodaeth a anfonir gan gynghorau at Lywodraeth Cymru yn ei ddangos. Nid yw'n dangos cyfanswm y bobl ifanc yng Nghymru sy'n ddigartref neu'n debygol o ddod yn ddigartref.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwybod bod rhai pobl yn fwy tebygol o ddod yn ddigartref gan gynnwys pobl sy'n gadael gofal, pobl sy'n gadael y carchar, a phobl lesbiaidd, ddeurywiol, hoyw neu drawsryweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol i ddeall anghenion y bobl hyn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i **Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** ymchwilio i atal digartrefedd ieuenctid ac mae'n cynllunio gwaith i wella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn adnabod pobl ifanc sy'n wynebu risg. Bydd rhan o'r dull newydd yn cynnwys addasu'r **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** i adnabod a chefnogi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn ddigartref. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyllido hyfforddiant i helpu gweithwyr addysg proffesiynol i adnabod pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn ddigartref trwy ei Grant Cymorth Ieuenctid yn 2019-20.

## Deall pa wasanaethau sy'n bodoli a'r bylchau

Yn aml mae ar bobl ifanc sy'n ddigartref neu sy'n debygol o ddod yn digartref angen help mewn gwahanol rannau o'u bywydau. O ran faint o help y mae pobl ifanc yn ei gael a pha mor dda yw'r help hwnnw, mae hynny'n newid gryn dipyn rhwng ardaloedd lleol. Clywsom fod rhai pobl ifanc yn cael eu hanfon yn ôl ac ymlaen rhwng gwahanol asiantaethau ac yn gorfod cydgysylltu gwasanaethau drostynt eu hunain. Dywedodd rhai sefydliadau wrthym ei bod yn anodd cael help i bobl ifanc sydd â phroblem iechyd meddwl.


Mewn rhai achosion nid yw'r llety neu'r gwasanaethau'n cyd-fynd â'r hyn y mae ar bobl ifanc ei eisiau mewn gwirionedd neu maent mewn mannau nad ydynt yn dymuno mynd iddynt. Er enghraifft, nid yw rhai'n dymuno mynd i hostelau ar gyfer pobl ddigartref am eu bod yn poeni y bydd cyffuriau a phethau eraill y maent yn ceisio cadw draw oddi wrthynt yn yr hostel.

Mae sefydliadau hefyd yn pryderu bod diffyg cymorth priodol yn gwneud pobl ifanc yn fwy agored i gamfanteisio, megis derbyn cynigion o ystafell yn gyfnewid am ryw.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwella'r wybodaeth sydd ganddi am wasanaethau i atal digartrefedd ieuenctid gan gynnwys ymchwil yn y dyfodol i opsiynau tai ar gyfer pobl ifanc. Fe gomisiynodd waith ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i oleuo polisi a phenderfyniadau cyllido. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi ymchwil ar wahân sy'n canolbwyntio'n benodol ar fapio gwasanaethau digartrefedd ieuenctid ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru. Gallai Llywodraeth Cymru wella'i dealltwriaeth trwy adeiladu ar yr wybodaeth hon i weld yn union ble mae'r bylchau mewn gwasanaethau'n bodoli – mewn gwasanaethau digartrefedd ieuenctid ac mewn gwasanaethau ehangach i helpu pobl ifanc gyda materion eraill sydd ganddynt o bosibl. Mae angen iddi ddeall hefyd a yw pobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael, ac os nad ydynt – pam?

Mae Cronfa Arloesi £4.8 miliwn Llywodraeth Cymru wedi'i bwriadu i gynyddu'r opsiynau tai a chymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd. Mae **canllawiau cyllido Llywodraeth Cymru** yn dweud y dylai sefydliadau sy'n gwneud cais am y cyllid gydweithio i osgoi dyblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli.

## Deall costau



Canfu **ymchwiliad** Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol i gysgu ar y stryd y dylai Llywodraeth Cymru gyfrifo faint fydd yn ei gostio i gynghorau gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i helpu pobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref a chyflawni'r Cynllun Gweithredu Cysgu Allan.

Dywedodd sefydliadau wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi tanamcangyfrif costau rhoi terfyn ar ddigartrefedd ieuenctid.


## Llunio polisïau mewn modd cydgysylltiedig



Yn aml mae gan bobl ifanc ddigartref broblemau mewn rhannau eraill o'u bywydau sy'n cyfrannu at eu digartrefedd. Yn yr un modd, ceir arwyddion yn aml mewn gwahanol feysydd ym mywyd person ifanc y gall fod yn wynebu risg o golli ei gartref. Er mwyn adnabod a chefnogi pobl ifanc ddigartref a'r rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd mae gofyn i wahanol wasanaethau gydweithio mewn ffordd nad ydynt yn ei wneud ar hyn o bryd.

Cododd sefydliadau bryderon ynghylch pa mor dda y mae gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd ac yn cysylltu gwaith mewn gwahanol feysydd. Cododd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol bryder tebyg.

## Penderfynu pwy sy'n gwneud beth



Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atal digartrefedd ieuenctid ac wedi dweud bod hynny'n un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth. Ond dywedodd sefydliadau wrthym nad yw dogfennau cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn nodi'n eglur pwy ddylai wneud beth. Clywsom hefyd, y tu hwnt i adrannau tai cynghorau, nad yw adrannau eraill mewn cynghorau a sefydliadau eraill yn aml yn cydnabod eu rôl hwy o ran rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Dywedodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu strategaeth genedlaethol i roi terfyn ar ddigartrefedd ieuenctid a gweithio gyda sefydliadau eraill i'w chyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio ymchwil y ganolfan i ddatblygu ei dull ond nid yw wedi cadarnhau a fydd yn llunio strategaeth.


Dywedodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol nad yw'r Cynllun Gweithredu Cysgu Allan yn nodi'n ddigon eglur beth mae Llywodraeth Cymru yn dymuno'i weld na phwy y mae angen iddynt helpu. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i fwriadu i helpu pobl o bob oed gan gynnwys pobl ifanc. Mae atal cysgu ar y stryd yn rhan bwysig o atal digartrefedd ieuenctid.

## Dysgu o'r ddarpariaeth a'i gwella ar lawr gwlad

Nid oes digon o wybodaeth sy'n nodi pa mor dda y mae gwasanaethau'n cydweithio, pa wahaniaeth y maent yn ei wneud na beth mae pobl ifanc yn ei feddwl ohonynt. Canfu ein hadroddiad ar y Rhaglen Cefnogi Pobl nad yw'r wybodaeth y mae cynghorau'n ei chasglu'n rhoi darlun clir o'r hyn y mae'r rhaglen yn ei gyflawni. Dywedodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gael rhagor o dystiolaeth a honno'n dystiolaeth well i ddynodi pa un a yw dulliau o fynd i'r afael â digartrefedd ieuenctid yn gweithio.

Gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy hefyd i ddeall pa effaith y mae ei strategaethau a dogfennau cyfarwyddyd wedi'i chael. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad i weld pa mor dda y gweithiodd ei Chynllun Digartrefedd Deng Mlynedd. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi unrhyw enghreifftiau i ni sy'n dangos ble mae ei chanllawiau Llwybr Cadarnhaol at Fyd Oedolion wedi cael eu defnyddio na pha un a ydynt wedi gwella'r cymorth i bobl ifanc. Nid oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwybod a yw byrddau iechyd yn defnyddio'i Safonau Iechyd ar gyfer Pobl Ddigartref a Grwpiau Agored i Niwed.

## Darparu arweinyddiaeth



Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hyblygrwydd i gynghorau, byrddau iechyd a'u partneriaid benderfynu beth maent am ei wneud yn lleol. O'i wneud yn dda, dylai hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau lleol olygu bod pobl ifanc yn cael cymorth sy'n wahanol ond yr un mor dda. Fodd bynnag, canfuom fod pobl ifanc yn cael mynediad gwahanol at wasanaethau a gwasanaethau o ansawdd gwahanol gan ddibynnu ble y maent yn byw. Galwodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru y gwahaniaethau'n 'anghynaliadwy'.

Clywsom fod gwasanaethau lleol yn cydweithio'n dda mewn ardaloedd lle mae partneriaethau'n gryf, ond nid felly y mae hi ledled Cymru. Dywedodd rhai sefydliadau wrthym fod eu llwyddiannau wedi digwydd 'er gwaethaf' yn hytrach nag oherwydd y system y maent yn gweithio ynddi.

Canfu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru nad yw rhai cynghorau hyd yn oed yn cydymffurfio â'u dyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth, i wneud asesiadau o bobl ifanc 16 ac 17 oed a chynllunio llwybrau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar wybodaeth cynghorau i weld beth maent yn ei wneud i roi terfyn ar ddigartrefedd ieuenctid. Ond nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i wneud yn siŵr bod cynghorau neu sefydliadau eraill yn gweithio i roi terfyn ar ddigartrefedd, na bod cynghorau'n cydymffurfio â'r gyfraith. Mae Llywodraeth Cymru yn meddwl mai pwyllgorau cynghorau lleol ddylai fod yn gwneud yn siŵr bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**